**Rhif:** WG40613

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Diwygiadau arfaethedig i weithdrefnau llywodraethu ysgolion yng Nghymru

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2020
a Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 12 Awst 2020
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 23 Medi 2020

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

# Diwygiadau arfaethedig i weithdrefnau llywodraethu ysgolion yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Hoffai Llywodraeth Cymru wneud rhai diwygiadau i'r rheoliadau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion.<br><br>Bydd y newidiadau o fudd i gyrff llywodraethu drwy ganiatáu cadw cofnodion electronig a chyfarfodydd mynediad o bell rhithwir, yn ogystal â diddymu hen feini prawf anghymhwyso yn ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1988. |
| **Sut i ymateb** | Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu'r post i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 23 Medi 2020 fan bellaf. |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Llywodraethu ysgolion, trefniadaeth ysgolion a derbyniadau i ysgolion<br>Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br><br>E-bost: SMED2@llyw.cymru<br>Ffôn: 0300 025 0355 |

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y pwerau statudol sydd ganddynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ar y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy neu drefnu ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig i gynnal y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir ag unrhyw waith o'r fath o dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata a ddelir gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a ddelir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Crynodeb

Mae angen gwneud newidiadau i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (“y Rheoliadau Llywodraethu”) a Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (“y Rheoliadau Ffedereiddio”) er mwyn tynnu'r anghymwysiad rhag bod yn llywodraethwr ysgol os bydd unigolyn yn debygol o gael ei gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Ar yr un pryd, hoffem fanteisio ar y cyfle i wneud rhai newidiadau pwysig eraill megis caniatáu i gofnodion cyrff llywodraethu gael eu cadw yn electronig a diwygio adrannau allweddol er mwyn sicrhau bod rheoliadau Cymru yn gyfredol mewn perthynas â deddfwriaeth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ogystal, er nad yw'r rheoliadau presennol yn atal hynny, hoffem wneud yr opsiwn i gyrff llywodraethu gwrdd drwy fynediad o bell yn glir.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y newidiadau arfaethedig. Rydym wedi mynegi'r newidiadau hyn mewn cyd-destun polisi yn hytrach na darparu dwy set o reoliadau drafft. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn haws deall effeithiau'r newidiadau.

Nid ydym o'r farn bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn ddadleuol, ac felly bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am chwe wythnos, yn hytrach na'r 12 wythnos arferol.

# Disgrifiad manwl o'r newidiadau arfaethedig

### 1. Atodlen 5 y Rheoliadau Llywodraethu ac Atodlen 7 y Rheoliadau Ffedereiddio: tynnu'r meini prawf anghymwyso yn ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Nid yw'r meini prawf anghymwyso hyn yn briodol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion a dylid cael gwared ohonynt. Daeth Deddf Iechyd Meddwl (Gwahaniaethu) 2013 â'r anghymwysiad i ben am yr un rheswm ar gyfer Aelodau Seneddol presennol, cyfarwyddwyr cwmnïau a rheithwyr.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ddylid anghymwyso llywodraethwyr posibl a llywodraethwyr presennol o'r swydd ar sail salwch meddwl.

### 2. Atodlen 5 y Rheoliadau Llywodraethu ac Atodlen 7 y Rheoliadau Ffedereiddio: Diweddaru deddfwriaeth mewn perthynas â Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae angen diweddaru'r meini prawf anghymwyso hyn er mwyn adlewyrchu'r Gorchymyn diweddaraf. Bydd y rheoliadau diwygiedig yn cyfeirio at Orchymyn Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 2002 yn hytrach na Gorchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1989, a Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 yn hytrach na Deddf Diwygio Cyfraith (Darpariaethau Amrywiol) (Yr Alban) 1990.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cyrff llywodraethu ysgolion yn cael eu cyfarwyddo yn ôl y ddeddfwriaeth fwyaf diweddar.

### 3. Mae Rheoliad 47 a 61 o'r Rheoliadau Llywodraethu a Rheoliad 59 a 73 o'r Rheoliadau Ffedereiddio: yn caniatáu i gofnodion gael eu cadw'n electronig.

Mae bellach yn gyffredin i drafodion cyfarfodydd gael eu cofnodi yn electronig, yn hytrach nag ar bapur a'u llofnodi gan y Cadeirydd. Dylid diweddaru'r rhannau hyn o'r Rheoliadau er mwyn adlewyrchu hyn.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd cadw cofnodion electronig, gan gynnwys cadwyni e-bost a chofnodion cyfarfodydd, yn ymarfer a ganiateir i gyrff llywodraethu.

### 4. Mae Rheoliad 45 a 60 o'r Rheoliadau Llywodraethu a Rheoliad 57 a 72 o'r Rheoliadau Ffedereiddio: yn caniatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal drwy fynediad o bell.

Mae'n fwyfwy cyffredin cynnal cyfarfodydd yn rhithwir drwy fynediad o bell, gan ddefnyddio adnoddau fideogynadledda a thelegynadledda. Nid oes unrhyw beth yn y rheoliadau presennol sy'n atal cwrdd yn rhithwir yn benodol, ond rydym yn manteisio ar y cyfle i wneud yn glir y caniateir hyn.

Mae ‘yn rhithwir’ neu drwy ‘fynediad o bell’ yn y cyd-destun hwn yn golygu cwrdd drwy ddefnyddio adnodd telegynadledda neu fideogynadledda. Mae ‘yn electronig’ yn y cyd-destun hwn yn golygu gwneud a chadarnhau penderfyniadau drwy e-bost, neu adnoddau rhannu ffeiliau eraill megis MS Teams, sy'n cael eu cadw yn ddiogel at ddibenion archwilio.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall cyrff llywodraethu gynnal eu busnes yn electronig a thrwy fynediad o bell. Caniateir cyfarfodydd rhithwir neu fynediad o bell os caiff amodau penodol eu bodloni. Mae'r amodau hyn fel a ganlyn:

(1) bydd cyfranogwyr yn gallu cyflwyno sylwadau/cyflawni swyddogaethau yn llawn
(2) mae cyfranogwyr yn cytuno i gynnal y cyfarfod drwy fynediad o bell
(3) mae gan bob cyfranogwr fynediad i'r dulliau electronig sy'n eu galluogi i glywed/cael eu clywed, gweld/cael eu gweld
(4) gellir cynnal y cyfarfod yn deg ac yn dryloyw.

Bydd angen i glercod cyrff llywodraethu ddewis adnodd cyfarfod rhithwir yn seiliedig ar ei argaeledd i bob parti, ei ddiogelwch a'i ymarferoldeb o ran cynnal y busnes dan sylw.